

# AT THE GOING DOWN OF THE SUN, AND IN THE MORNING, WE WILL REMEMBER THEM

An extract from ***For the Fallen*** by Laurence Binyon

## COFIO

Mae cofio yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd 100 mlynedd yn ôl – mae aberth y rheini yng Nghymuned y Lluoedd Arfog wedi parhau i hawlio bywydau mewn rhyfeloedd hen a newydd. Cofiwn bawb yr effeithiwyd arnynt gan ryfel yn cynnwys y rhai sydd wedi marw a'r rhai sydd wedi dioddef. Mae cofio yn rhywbeth i bawb gymryd rhan ynddo, ym mhob cymuned. Mae ar gyfer pobl o bob oed a gallu, o bob ffydd neu ddim ffydd, o bob barn wleidyddol neu ddim barn. Gall cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau Cofio fod mor syml ag arsylwi Dau Funud o Ddistawrwydd am 11 o'r gloch bore'r 11 Tachwedd (Diwrnod y Cadoediad), ysgrifennu cerdd am y Cofio neu drefnu digwyddiad.

Y pabi yw'r symbol cyffredinol a gydnabyddir am Gofio a gobaith. Pan fyddwch yn gwisgo pabi rydych yn dangos eich bod yn meddwl, gan helpu Lleng Brydeinig Frenhinol i gefnogi miloedd o Gyn-filwyr Lluoedd Arfog Prydain – dynion a merched o bob oedran, a'u teuluoedd. Mae eich cefnogaeth yn helpu i sicrhau y gall y Lleng roi'r gofal gydol oes sydd ei angen arnynt – gallant barhau i fyw, gan wybod bod cymorth bob amser yno ar eu cyfer.

WWW.BRITISHLEGION.ORG.UK/LEARNING

Registered Charity No: 219279

LIVE ON

THE ROYAL BRITISH LEGION